Prifysgol Bangor

**COFNODION Y CYNGOR**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y brifysgol ddydd Gwener, 10 Gorffennaf 2020.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Dr Tomos Dafydd, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Andrew Edwards, Mr Iwan Evans, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Ms. Ellen Parry-Williams, Miss Julie Perkins, Dr Ian Rees, Mr Harry Riley, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro Paul Spencer, Yr Athro David Thomas, Yr Athro Oliver Turnbull, Mr Tudur Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Eiddo a Champws, y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:**
Yr Athro Nicky Callow

**19.101 CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-Ganghellor/ Pennaeth Coleg y Gwyddorau Naturiol, Mr Iwan Evans, Llywydd, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor a Mr Harry Riley, Llywydd, Undeb y Myfyrwyr i'w cyfarfod cyntaf.

**19.102 MARWOLAETHAU**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

> **John Becton,** myfyriwr yn yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas
>
> **Margaret Hewitt** a raddiodd o'r brifysgol ym 1964 gyda gradd Saesneg a Hanes, ac a fu hefyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Alumni y brifysgol am 10 mlynedd

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

**19.103 LLONGYFARCHIADAU**

A. Ar dderbyn swydd Darllenydd:

**Dr Sam Oliver,** Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

B. Nododd y Cadeirydd y llwyddiannau canlynol hefyd:

**Ymchwil Covid-19**
Dyfarnwyd bron i hanner miliwn o bunnoedd ar gyfer rhaglen beilot i dynnu sylw at arwyddion cynnar o'r coronafirws yng nghymunedau Cymru trwy fonitro systemau

carthffosiaeth. Yn arwain yr ymchwil mae'r Athro David Jones o'r Ysgol Gwyddorau Naturiol.

**Llyfr y Flwyddyn**

Mae dau ddarlithydd ysgrifennu creadigol wedi'u cynnwys ar restr fer Llyfr Saesneg y Flwyddyn Cymru eleni, ac mae darlithydd newyddiaduraeth ar restr fer Llyfr Cymraeg y Flwyddyn, a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf 2020. Y ddwy ar restr fer y gwobrau Saesneg yw'r bardd Zoë Skoulding am ei chasgliad diweddaraf *Footnotes to Water*, a'r nofelydd Alys Conran, am ei nofel ddiweddaraf *Dignity*. Ar restr fer categori ffuglen Llyfr Cymraeg y Flwyddyn y mae *Babel*, nofel gan Ifan Morgan Jones.

**Cyhoeddi traethawd hir myfyriwr israddedig**

Mae'r cyn fyfyriwr, James Edwards, wedi gweld ei waith traethawd hir blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Bangor yn cael ei gyhoeddi yn *Acupuncture in Medicine*. Cymharodd ganlyniadau triniaeth ar gyfer aciwbigo gyda therapi cyffuriau a llawfeddygaeth.

**Eisteddfod-T**

Roedd myfyrwyr y brifysgol yn llwyddiannus yn Eisteddfod rithwir yr Urdd - Eisteddfod T - ym mis Mai 2020.

- Enillodd Cai Fôn Davies, myfyriwr ail flwyddyn sy'n astudio Cymraeg a Hanes deitl y Prif Gyfansoddwr.
- Daeth Aelwyd JMJ, aelwyd neuadd breswyl Gymraeg Prifysgol Bangor, yn ail yng nghystadleuaeth y corau (14-25 oed) gyda pherfformiad syfrdanol o 'Yn Llygad y Llew' gan Robat Arwyn, gydag Elain Rhys yn cyfeilio.
- Enillodd Mared Fflur Jones, sydd ar ei hail flwyddyn o'i gradd Gymraeg, wobr y prif lenor, ac aeth gwobr y prifardd i'r cyn-fyfyriwr, Osian Owen. Graddiodd Osian gyda gradd BA (Anrh) dosbarth cyntaf o'r Ysgol Astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd yn 2018, ac ar hyn o bryd, mae'n astudio ar gyfer gradd Meistr.

**Cymrodoriaethau Cymdeithas Ddysgedig Cymru**

Mae tri academydd o Brifysgol Bangor ymhlith y rhai a dderbyniwyd yn Gymrodyr newydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru:

- Yr Athro Nathan Abrams, Athro Astudiaethau Ffilm, Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau
- Yr Athro Emeritws Peter Field, Athro Emeritws Ffrangeg, Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth
- Dr Sue Niebrzydowski, Darllenydd mewn Llenyddiaeth Ganoloesol yn yr Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth

C. Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Cadeirydd yn gynnes yr aelodau staff a'r myfyrwyr dan sylw.

**19.104 DATGANIADAU BUDD**

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau budd mewn perthynas â'r cyfarfod hwn.

**19.105 Y DIWEDDARAF AR RECRIWTIO MYFYRYWYR**

A. Croesawyd Ms Westwood yn ffurfiol i'r Cyngor yn ei rôl fel Prif Swyddog Marchnata/ Is-lywydd Rhyngwladol.

B. Rhoddwyd gwybod i aelodau bod sefyllfa'r brifysgol ar ddyddiad cau penderfyniad UCAS ym mis Mehefin yn dangos bod y brifysgol yn parhau i fod ar ei hôl hi yn y sector ac yn colli cyfran o'r farchnad myfyrwyr sy'n hanu o'r DU. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod y brifysgol wedi buddsoddi mewn ymgynghorwyr allanol a darpariaeth gwasanaethau allanol, yn ogystal â buddsoddi mwy mewn hysbysebu, a byddai wedi bod yn rhesymol disgwyl gweld rhywfaint o welliant mewn perfformiad o gymharu â gweddill y sector. Roedd yn anodd gwybod faint roedd sefyllfa Covid-19 wedi effeithio ar y sefyllfa hon, ond mae her enfawr yn y tymor byr a'r tymor hir o hyd i newid y sefyllfa.

Yn hanesyddol, mae'r sefyllfa mewn perthynas â recriwtio rhyngwladol wedi bod yn gryfach i'r brifysgol, ond mae sefyllfa Covid-19 wedi effeithio ar y farchnad benodol hon hyd yn oed yn fwy na'r farchnad Cartref/UE. Nododd Ms Westwood y byddai'r cyfnod Clirio yn gyfnod hyd yn oed pwysicach na'r arfer i'r brifysgol. Roedd y dull o ymdrin â'r broses Glirio yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd er mwyn gwneud y gorau o hysbysebu a staffio o gwmpas y diwrnod canlyniadau Safon Uwch. Mae partneriaeth y brifysgol ag UCAS Media, ac ar ben hynny cytundeb diweddar gydag UniQuest, wedi caniatáu i'r brifysgol wella ei hysbysebu, canolbwyntio ei gweithgareddau mewn meysydd allweddol, a mynd ar drywydd ymgeiswyr yn enwedig o farchnad Lloegr.

Wrth edrych ymlaen, bydd yr adolygiad portffolio cyfredol sy'n cael ei gynnal fel rhan o waith yr Athro Nicky Callow ar ddysgu ac addysgu, yn hanfodol i sicrhau bod gan y brifysgol set o gyrsiau y gellir eu marchnata i'w hyrwyddo ar gyfer 2021/22 a thu hwnt. Mae buddsoddiad pellach mewn marchnata yn hanfodol er mwyn i'r brifysgol fod â thalent newydd sy'n darparu safbwyntiau a dulliau gweithredu o'r newydd. Ochr yn ochr â hyn, mae datblygu brand a naratif y brifysgol yn nod allweddol i Ms Westwood ei gyflawni dros yr haf.

C. Croesawodd y Cyngor y dull gweithredu a oedd yn cael ei gymryd, gan gydnabod y darlun heriol ar gyfer cylch recriwtio 2020/21, a'r amser y byddai'n ei gymryd i wneud gwahaniaeth i'r sefyllfa bresennol.

D. **Cytunwyd** y byddai'r brandio newydd yn cael ei rannu gyda'r Cygor yn ei gyfarfod ym mis Medi.

## 19.106 COFNODION

A. ***Cadarnhawyd*** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2020, yn amodol ar wneud dau newid bychan, gan nodi nad oedd cost ychwanegol yn sgil y newidiadau a wnaed mewn perthynas â chofnod 19.86 (Adolygiad o'r Tîm Gweithredu), ac eglurwyd teitlau mewn perthynas â'r Dirprwy Is-Gangellorion Cynorthwyol.

B. Gan gyfeirio at:

[1] **REF** (cofnod 19.64A); Rhoddodd yr Athro David Thomas y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y REF. ***Nododd*** y Cyngor y daethpwyd â'r Unedau Asesu i lawr o 11 i 9, ac ar hyn o bryd roedd y brifysgol yn rhagweld y byddai 270 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cynnwys yn y broses. Cadarnhaodd yr Athro Thomas fod y brifysgol mewn sefyllfa gadarn ar hyn o bryd, a bod REF bach arall wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref.

[2] **Adolygiad o'r Tîm Gweithredu** (cofnod 19.86); Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Athro Thomas ar ei benodiad diweddar yn Athro Ymchwil Ecosystem Arctig ym Mhrifysgol Helsinki. Nodwyd y byddai'r Athro Thomas yn gadael y Brifysgol yn yr hydref, a diolchwyd iddo am ei waith fel Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) yn ogystal ag yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion dros nifer o flynyddoedd, a dymunodd yr aelodau yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

C. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor y cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

## 19.107 DIWEDDARIAD AROLWG STAFF

A. Rhoddodd yr Athro Edwards a Mrs Hibbert ddiweddariad i'r Cyngor ar yr Arolwg Staff diweddar. Roedd yr Arolwg Staff yn rhan o ddatblygu'r Strategaeth Pobl yn Gyntaf, a bydd yn darparu sylfaen dystiolaeth i fwrw ymlaen â'r strategaeth.

Nodwyd y cafwyd ymateb da i'r arolwg gyda 62% o'r staff yn ymateb. Roedd dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r holl gwestiynau wedi'i roi i'r aelodau yn yr adroddiad trosolwg. Cynhelir grwpiau ffocws staff ar hyn o bryd er mwyn trafod y canlyniadau mewn mwy o fanylder ac i gasglu syniadau gan aelodau staff ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld yn y dyfodol.

Nododd y Cyngor fod rhai heriau penodol wedi dod i'r amlwg, a bod datblygu cynlluniau gweithredu yn hanfodol er mwyn mynd rhoi sylw i'r materion a godwyd. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod prosesau adolygu datblygiad perfformiad yn cael eu cyflawni ymhob maes, a dylai'r brifysgol anelu at gael nifer uchel yn cymryd rhan yn y broses hon.

Ar ôl cwblhau'r Grwpiau Ffocws, bydd adroddiad pellach yn cael ei ysgrifennu a'i roi gerbron y Pwyllgor Gweithredu a'r Cyngor.

B. ***Nododd*** y Cyngor ganlyniadau'r Arolwg, a gofynnodd am gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud. Yn benodol, cododd y Cyngor bryderon ynghylch y problemau gyda'r broses PDR, a gofynnodd am adroddiad pellach ar sut y rhoddwyd sylw i hyn.

**19.108 MATERION YR IS-GANGHELLOR**

A. Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Is-Ganghellor ar gyflwyno amlinelliad strategol i Lywodraeth Cymru y bore hwnnw, yn ymwneud â datblygu Ysgol Feddygol i Brifysgol Bangor, a chadarnhaodd yr Is-Ganghellor fod hwn yn gam cyntaf pwysig. Y camau nesaf ar gyfer y datblygiad fyddai sefydlu Tîm Project i weithio ar y manylion sylweddol y bydd eu hangen. Pwysleisiodd yr Is-Ganghellor fod gan y Brifysgol ymrwymiad llwyr i gefnogi meddygaeth a phynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth, a fydd yn cael eu gyrru gan ymchwil, yn ogystal â darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf. ***Nododd*** y Cyngor y byddai'n cael ei hysbysu'n llawn wrth i'r datblygiad pwysig hwn symud yn ei flaen.

B. Diweddarwyd y Cyngor ar y trefniadau mewn perthynas â rôl y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil), a ***nodwyd*** y byddai'r Athro Spencer yn cyflawni'r rôl hon yn ychwanegol at ddyletswyddau eraill, gyda'r brifysgol yn bwriadu penodi dau Is-Ganghellor Cysylltiol i gynorthwyo gyda'r gwaith.

**19.109 COVID-19**

**A. Grŵp Goruchwylio Llywodraethu Covid-19**

[1] Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Grŵp Goruchwylio Llywodraethu Covid-19 a gynhaliwyd ar 1 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020, a'r Cylch Gorchwyl atodol ar gyfer y Grŵp. Nodwyd y disgwyliwyd am farn gyfreithiol bellach yn benodol ar gyfer yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â'u hatebolrwydd am fenthyciad EIB.

[2] Holodd Mr Riley ynglŷn â'r diffyg cynrychiolaeth myfyrwyr ar y Grŵp o ystyried y penderfyniadau pwysig sy'n cael eu gwneud. Cadarnhawyd bod y Grŵp wedi'i sefydlu i gynnwys Cadeiryddion Is-bwyllgorau'r Cyngor, gyda phwerau ychwanegol i ofyn i eraill ddod i'r cyfarfodydd yn ôl yr angen. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Cyngor a'r Brifysgol wir yn cymryd cynrychiolaeth myfyrwyr o ddifrif, a nododd fod myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar holl Is-bwyllgorau'r Cyngor. Nid oes gan Grŵp Goruchwylio Llywodraethu Covid-19 unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau. Byddai unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Gweithredu i'r Cyngor wneud penderfyniadau, yn mynd trwy Is-bwyllgorau i'w craffu, neu fel arall, yn uniongyrchol i'r Cyngor, gyda phob un ohonynt â chynrychiolaeth myfyrwyr.

**B. YMDRIN Â'R HERIAU ARIANNOL**

[1] Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ei bapur ar ymdrin â heriau ariannol Covid-19, a nododd fod y pandemig yn cyflwyno'r her fwyaf dwys o ran gweithredu ac yn economaidd, i Brifysgol Bangor yn ei hanes cyfan. Mae'r brifysgol wedi ymateb i'r heriau gweithredol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ac yn awr mae angen iddi ystyried goblygiadau'r pandemig yn llawn ar weithrediadau'r brifysgol yn y dyfodol, ac ar ei gallu i ymateb.

Nodwyd bod trosolwg o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y papur gerbron y Cyngor wedi'i rannu ag aelodau staff mewn gweminar a gyflwynwyd gan yr Is-Ganghellor ar 30 Mehefin, fel bod staff yn rhan o'r cyfeiriad y bwriedir ei ddilyn. Ni ellir gorbwysleisio difrifoldeb sefyllfa'r brifysgol ar hyn o bryd, ac mae'r Pwyllgor Gweithredu'n bwriadu gweithio gyda Grŵp Goruchwylio Llywodraethu Covid-19 i gyflwyno argymhellion pellach yn seiliedig ar y pileri strategol a ddarperir yn y papur.

Ar hyn o bryd, mae'n anodd modelu sefyllfa ariannol y brifysgol yn gywir, gan y byddai angen i hyn fod yn seiliedig ar niferoedd terfynol y myfyrwyr ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, roedd gwaith eisoes wedi'i wneud i ddarparu rhai senarios i'r Cyngor, yn seiliedig ar ofynion adrodd HEFCW, a baentiodd ddarlun o sefyllfa debygol y brifysgol yn yr hydref, fel y deellir ar hyn o bryd.

[2] ***Nododd* Cyngor y Brifysgol** ganlyniadau'r senarios wedi'u modelu a ***chymeradwyo'r*** dull gweithredu strategol a amlinellir yn y papur

**19.120 MATERION YSTADAU**

**A. Strategaeth Ystadau at y Dyfodol**

[1] Ystyriodd y Cyngor ddiweddariad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws ar y Strategaeth Ystadau at y dyfodol, a oedd yn mapio'r cyfeiriad y bwriedir ei ddilyn dros yr ychydig fisoedd nesaf. Nodwyd bod y Strategaeth Ystadau gyfredol wedi dod i ben, ac mae angen Strategaeth Ystadau integredig wedi'i hailwampio at y dyfodol i'r Brifysgol i fodloni gofynion y dyfodol.

[2] Croesawodd yr aelodau'r weledigaeth a geir yn y papur, a chadarnhawyd y dechreuir ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yn Niwrnod Cwrdd-i-Ffwrdd y Cyngor ym mis Hydref neu fis Tachwedd.

[3] Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth, ***cymeradwyodd*** y Cyngor y camau gwaith nesaf a amlinellwyd yn y papur.

**B. Gwerthu Eiddo**

[1] Ystyriodd y Cyngor adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws yn gofyn am gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â gwerthu Felin Tysilio, a chysylltu â'r asiantau gwerthu a'r cyfreithwyr.

[2] Nododd y Cyngor fel a ganlyn:

a. bod gofyn i'r brifysgol gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011 mewn perthynas â gwerthu tir;

b. y cafwyd adroddiad Syrfëwr yn unol ag Adran 119(1)(a) o Ddeddf Elusennau 2011 a'r Rheoliadau Elusennau (Adroddiad Syrfëwr Cymwysedig) 1992;

[3] ***Cytunodd*** y Cyngor i symud ymlaen gyda gwerthu Felin Tysilio ar bris gostyngedig, a chysylltu â'r asiantau gwerthu a'r cyfreithwyr.

**19.121 SIARTER ATODOL DDRAFFT**

A. Atgoffodd Ysgrifennydd y Brifysgol yr aelodau bod y Cyngor, yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2020, wedi cytuno ar gynnwys y Siarter Atodol ddrafft a'r cyfeiriad y bwriedir ei ddilyn. Yn dilyn y cyfarfod, gwahoddwyd sylwadau pellach gan y Senedd a rhanddeiliaid eraill. Trafodwyd yn benodol y Siarter yn Senedd y Brifysgol ar 26 Mai 2020 a chytunwyd ar welliant a awgrymwyd, ac ychwanegwyd ato yn y drafft a gyflwynwyd i'r Cyngor.

B. Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth briodol ***cymeradwyodd*** y Cyngor y Siarter Atodol ddrafft yn anffurfiol i'w chyflwyno i'r Llys i'w hystyried, ac yna ymlaen i'r Cyfrin Gyngor i'w chymeradwyo.

**19.122 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU**

A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 19 Mehefin 2020 (ynghlwm fel Atodiad I i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, **cymeradwyodd** y Cyngor ailbenodi Syr Paul Lambert, a Mr Marc Proudlove-Jones yn aelodau annibynnol o'r Cyngor am gyfnod pellach o bedair blynedd, hyd at 31 Awst 2024.

C. ***Nododd*** y Cyngor y penodiadau a'r ailbenodiadau i Bwyllgorau'r Cyngor, gan awgrymu'r ffordd ymlaen mewn perthynas â'r Pwyllgor Materion Cyfrwng Cymraeg a'r Pwyllgor Moeseg.

## 19.123 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2020 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

## 19.124 ADRODDIAD O'R SENEDD

Cyflwynodd yr Is-ganghellor yr adroddiad ar gyfarfodydd y Senedd a gynhaliwyd 21 Ebrill, 26 Mai a 30 Mehefin 2020. ***Nododd*** y Cyngor bod y Senedd wedi derbyn diweddariad ar y gwaith a wnaed i adolygu Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol ym mhob cyfarfod, a bod newid wedi'i wneud i'r Siarter yn dilyn trafodaeth yn Senedd mis Mai. Ymgynghorwyd â'r Senedd hefyd ar Ordinhad 12 sy'n ymwneud â'r Senedd.

## 19.125 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

***Cymeradwywyd*** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd 26 Mehefin 2020 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn). ***Nodwyd*** y byddai Adroddiad Pontio yn cael ei drafod yn niwrnod cwrdd-i-ffwrdd y Cyngor ym mis Hydref 2020.

## 19.126 PWYLLGOR TALIADAU

***Cymeradwywyd*** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd 23 Ebrill 2020 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion)**.**

## 19.127 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

***Cymeradwywyd*** adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2020 (ynghlwm fel Atodiad V i gopi swyddogol y Cofnodion). ***Nodwyd*** y cytunwyd ar y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21.

## 19.128 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRYWR

***Nododd*** y Cyngor adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr ar eu gweithgareddau, eu hymgyrchoedd a'u digwyddiadau diweddar. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Reilly a Mr Evans, a'u rhagflaenwyr, am adroddiad llawn gwybodaeth.

## 19.129 MATERION ADNODDAU DYNOL

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol a ***nodwyd*** y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a'r wybodaeth am les staff.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

C. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y cais i ddyfarnu statws Emeritws i'r Athro Hong Fan.

## 19.130 ADRODDIAD I'R COMISIWN ELUSENNAU

***Nododd*** y Cyngor bod yr adroddiad blynyddol i'r Comisiwn Elusennau am 2018/19 wedi ei gyflwyno ym mis Mai 2020, cyn y dyddiad cau a bennwyd gan y Comisiwn Elusennau.

## 19.131 ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

***Cymeradwywyd*** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd 6 Gorffennaf 2020 (ynghlwm fel Atodiad VI i gopi swyddogol y cofnodion).

## 19.132 AILENWI YSGOLION

***Cymeradwyodd*** y Cyngor y cynigion canlynol a gyflwynwyd gan yr Athro Edwards:

[a] Ailenwi'r Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth gyfredol yn Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau, Ieithyddiaeth a'r Cyfryngau;

[b] Ailenwi'r Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau gyfredol yn Ysgol Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio.

## 19.133 FFARWELIO

***Nododd*** y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf Mr Harry Riley yn y Cyngor gan ei fod wedi derbyn swydd yn y Gwasanaeth Sifil. Diolchwyd i Harry am ei gyfraniad i'r Brifysgol ac i Undeb y Myfyrwyr. Dymunodd y Cyngor yn dda iddo yn ei yrfa yn y dyfodol.